**CYNGOR RHONDDA CYNON TAF PWYLLGOR DEDDF TRWYDDEDU 2003**
Cofnodion cyfarfod rhithwir y Pwyllgor Deddf Trwyddedu 2003 a gynhaliwyd ddydd Mawrth, 2 Tachwedd 2021 am 4.30pm.

**Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol - Aelodau Pwyllgor Deddf Trwyddedu 2003 oedd yn bresennol:-**

Y Cynghorydd A Fox (Cadeirydd)

Y Cynghorydd D Williams
Y Cynghorydd S Morgans
Y Cynghorydd G Holmes
Y Cynghorydd L Jones
Y Cynghorydd S Powderhill
Y Cynghorydd P. Howe
Y Cynghorydd A Cox

**Swyddogion yn bresennol:-**

Ms L Davies, Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a'r Gymuned
Mr P Nicholls, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Cyfreithiol
Ms R Hope, Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd a Gwasanaethau Rheoleiddio
Mr M Owen, Rheolwr Trwyddedu Cynorthwyol
Mr N Evans, Swyddog Gorfodi Materion Trwyddedu
Ms K Trilloe, Rheolwr Dros Dro Diogelu Iechyd a Thrwyddedu

**30 Ymddiheuriadau am Absenoldeb**

Daeth ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorwyr S. Bradwick, T. Williams a L. Hooper.

**31 Datganiadau o Fuddiant**

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, ni wnaethpwyd unrhyw ddatganiadau mewn perthynas â'r Agenda.

**32 Deddf Hawliau Dynol 1998 a'r Ddeddf Trosedd ac Anhrefn**

**PENDERFYNWYD** nodi pan fydd Aelodau'n ystyried y materion trwyddedu a chofrestru sydd ger eu bron, mae dyletswydd arnyn nhw i beidio â gweithredu mewn modd sy'n anghydnaws â'r confensiwn ar Hawliau Dynol a'r Ddeddf Trosedd ac Anhrefn.

**33 Cofnodion**

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Gorffennaf 2021 yn rhai cywir.

**34 Adolygiad o Ddeddf Trwyddedu 2003 ac o Ddeddf Gamblo 2005**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a Gwasanaethau Cymuned yr adroddiad i'r Pwyllgor. Roedd yr adroddiad yn trafod materion perthnasol mewn perthynas â Deddf Trwyddedu 2003 a Deddf Gamblo 2005, yn ogystal â materion atodol eraill sy'n codi o gyfrifoldebau'r Pwyllgor.

Adroddwyd bod nifer y ceisiadau am Hysbysiadau Digwyddiad Dros Dro sydd wedi dod i law wedi parhau i gynyddu wrth i ni weld rheoliadau coronafeirws yn lleihau ac mae dadansoddiad o'r ceisiadau Hysbysiadau Digwyddiad Dros Dro yn cynnwys 23 cais ar gyfer trwyddedau eiddo presennol, 42 ar gyfer achlysuron cymunedol a ganiateir ac 16 gan Glybiau Aelodau Preifat.

Ar ben hynny, mae nifer y ceisiadau y bu'n rhaid i'r adran drwyddedu eu hystyried wedi cynyddu eto ers y cyfnod adrodd diwethaf, gan godi o'r 163 cais a nodwyd yn yr adroddiad diwethaf i 221 cais yn ystod y cyfnod yma. Mae hyn eto'n adlewyrchiad o eiddo â thrwyddedau yn ailagor. Mae ceisiadau am Drwyddedau Personol a cheisiadau i newid Goruchwyliwr Safle Dynodedig hefyd wedi bod yn arbennig o brysur.

Dywedodd y Cyfarwyddwr y bu un cais a wrthwynebwyd am Amrywio Trwydded Safle ers adroddiad diwethaf y Pwyllgor. Serch hynny, tynnwyd y cais hwnnw yn ôl. Gofynnodd Heddlu De Cymru am adolygiad yn ystod y cyfnod lle penderfynodd yr Is-bwyllgor y dylid dirymu'r drwydded ac roedd apêl ar y gweill. Fodd bynnag, yn ystod y cyfnod hwn, penderfynwyd ei bod hi'n rhy hwyr i wneud apêl ac felly mae'r drwydded bellach wedi'i dirymu'n llawn. Yn ogystal â hynny, rhoddodd y Cyfarwyddwr wybod i'r Pwyllgor bod dau adolygiad arall yn yr arfaeth, wedi'u trefnu ar gyfer mis Tachwedd 2021. Byddai'r rhain yn cael eu hadrodd i gyfarfod pwyllgor yn y dyfodol.

Adroddwyd hefyd bod adroddiad diwethaf y Pwyllgor yn cynghori bod Apêl gan ymgeisydd Gwesty'r White Lion wedi'i gyflwyno ac wedi'i nodi fel apêl 'dan ystyriaeth', ond mae'r apêl dan sylw wedi'i dynnu'n ôl ers trosglwyddo'r drwydded.

Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr yr Aelodau at adran 4.3 yr adroddiad lle mae arolygiadau o eiddo a thor rheolau'n cael eu hamlinellu. Dysgodd yr Aelodau nad oes unrhyw newid o ran lefel cyflawniad yr eiddo a arolygwyd. 91.48**%** oedd y nifer yn yr adroddiad diwethaf. Yn ogystal, dysgodd yr Aelodau bod archwiliadau Trwyddedu bellach wedi ailgychwyn gan nad yw swyddogion bellach yn cynnal arolygiadau Coronafeirws.

Nododd y Cyfarwyddwr, ers ailagor tafarndai a chlybiau, fod yr awdurdod

trwyddedu wedi gweld cynnydd mewn cwynion yn ymwneud â sŵn ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Roedd hynny wedi'i ragweld ac yn ôl y disgwyl, oherwydd y newid mawr i drigolion lleol sy'n byw ger eiddo sydd wedi bod ar gau am gyfnod hir yn sgil Covid. Cyfarwyddir pobl i wneud cwynion am sŵn drwy'r ap 'Sŵn' er mwyn i swyddogion allu gwrando a gwneud penderfyniad gwybodus ynghylch y ffordd orau i ymateb.

Adroddodd y Cyfarwyddwr fod y garfan trwyddedu wedi parhau â'i phartneriaeth lwyddiannus gyda Heddlu De Cymru, gyda'r ddau awdurdod yn gweithio ar y cyd i fynd i'r afael â chwynion. Mae'r berthynas hon yn parhau i ffynnu ac mae'n allweddol i'r ffordd y mae eiddo trwyddedig yn cael eu hannog, eu cynghori a'u rheoli.

Ar ben hynny, mae cyfarfodydd Pubwatch yn parhau i gael eu cynnal. Mae'r rhain bob amser yn fforymau defnyddiol i drafod materion lleol a chodi ymwybyddiaeth o fentrau. Mae'r cyhoeddusrwydd diweddar mewn perthynas â sbeicio diodydd yn bryder amlwg yn y sector ac i gwsmeriaid, a chynghorodd y Cyfarwyddwr y byddai adroddiad i ddiweddaru'r pwyllgor ar waith ar y mater hwn yn cael ei gyflwyno i gyfarfod yn y dyfodol.

Dysgodd yr Aelodau fod pobl yng Nghymru bellach angen Pàs COVID y GIG i fynd i glybiau nos ac achlysuron mawr yn gyfreithlon a bydd yn ofynnol i unrhyw un dros 18 oed ddangos y Pàs i brofi eu bod naill ai wedi'u brechu'n llawn neu dangos eu bod wedi cael canlyniad prawf llif unffordd positif o fewn 48 awr i'r achlysur. Yn ogystal, mae gan RhCT garfan arbennig sydd ar gael i ddarparu cymorth a chyngor ar faterion yn ymwneud â Covid, a bydd y garfan hefyd yn ymweld ag eiddo i gynghori'n rhagweithiol.

**35 Trafod cadarnhau'r cynnig isod yn benderfyniad:**

**PENDERFYNWYD** bod y cyfarfod hwn yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr agendwm nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 13 o Ran 4 o Atodlen 12A o'r Ddeddf.

**36 Trwyddedau a Chofrestriadau a roddwyd o dan ddarpariaeth Pwerau Dirprwyedig yn ystod y cyfnod: 21.06.21 - 17.10.21**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a'r Gymuned fanylion i'r Pwyllgor am y trwyddedau a'r cofrestriadau a gyhoeddwyd yn ystod y cyfnod rhwng 21 Mehefin 2021 a 17 Hydref 2021.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** nodi cynnwys yr adroddiad.

**Daeth y cyfarfod i ben am 16.45pm**

**Y CYNGHORYDD A FOX**
**CADEIRYDD.**